**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

John Griffiths AC
Cadeirydd Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol
a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Ebrill 2019

**Gwneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol'**

Annwyl John,

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bapur trafod yn ddiweddar yn ymdrin â chwe thema ar gyfer ceisio sicrhau bod gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol', ynghyd â rhestr wirio gysylltiedig yn cynnwys chwe cham i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' .

Paratowyd y papur trafod a'r rhestr wirio yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a oedd yn archwilio pa mor 'addas at y dyfodol' oedd eu swyddogaethau craffu. Cynhaliwyd yr adolygiadau o gynghorau unigol yn ystod 2017-18.

Bu'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried sut yr oedd cynghorau yn ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf) mewn perthynas â'u gweithgarwch craffu, yn ogystal â sut yr oedd cynghorau yn dechrau ymgymryd â'r gwaith o graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Archwiliodd yr astudiaeth hefyd p'un a yw cynghorau mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau yn y dyfodol fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r cam posibl tuag at drefniadau ar gyfer mwy o waith rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

Mae'r papur trafod yn nodi rhai themâu allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn y gall cynghorau eu hystyried wrth iddynt geisio gwella effeithlonrwydd ac

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

effeithiolrwydd eu swyddogaethau craffu. Awgrymir y dylai Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynghorau, ystyried y thema derfynol. Crynhoir y chwe thema o dan y penawdau a ganlyn:

- Mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau mewn rhai cynghorau o hyd, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn craffu’n llwyddiannus.
- Mae llawer o gynghorau yn dal i gydnabod yr angen i wella’r trefniadau ymgysylltu â’r cyhoedd wrth graffu, ond mewn nifer o gynghorau, bydd hyn yn gofyn am newid sylweddol yn yr ymarfer craffu.
- Dylai Cynghorau fyfyrio ar ba mor drylwyr y maent yn blaenoriaethu ac yna’n cynllunio gweithgareddau craffu i wella eu heffaith.
- Mae’n bosibl y bydd angen dull gweithredu gwahanol i gefnogi aelodau’r pwyllgor craffu i ymateb i heriau heddiw ac i’r dyfodol.
- Gwerthuso effeithiolrwydd swyddogaethau craffu.
- Dylai Llywodraeth Cymru a’r cynghorau ystyried goblygiadau’r themâu uchod ar drefniadau llywodraethu cynghorau a phartneriaethau.

Mae rhestr wirio yn cynnwys chwe cham hefyd wedi'i chyhoeddi i gyd-fynd â'r papur trafod, ac mae'r rhestr hon wedi'i llunio ar gyfer aelodau o bwyllgorau craffu mewn awdurdodau lleol. Mae'r rhestr wirio yn cynnwys y penawdau a ganlyn:

- **Gwybod beth yw eich rôl** – yr hyn y 'dylech' fod yn ei wneud, yr hyn y 'cewch' ei wneud a’r hyn 'na chewch' ei wneud.
- **Gwybod beth yw eich pwerau a'r hyn sy'n 'bosibl' wrth graffu** – pa ddewisiadau, offer a ffyrdd o weithio sydd ar gael ichi?
- **Gwybod beth rydych yn ceisio'i gyflawni** – byddwch yn glir ynglŷn â'r nodau ar gyfer y swyddogaeth graffu yn gyffredinol, ond yn **holl bwysig** y nodau a'r diben penodol wrth graffu ar **bob** testun y dewiswch ei archwilio.
- **Cynllunio eich gwaith craffu er mwyn cyrraedd eich nodau** – testunau a dulliau priodol ar gyfer **bob** eitem y craffir arni.
- **Dylunio trefniadau cefnogi er mwyn cyrraedd eich nodau** – y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad iawn ynghyd â darpariaeth hyfforddiant briodol.
- **Gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgaredd craffu yn rheolaidd, a gwneud newidiadau ar sail yr adborth.**

Yn ein cyfarfod ar 25 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylid rhannu'r materion hyn gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gan eu bod yn berthnasol, o bosibl, i'ch gwaith ehangach ar lywodraeth leol. Rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ymateb i'r thema derfynol a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a byddwn yn anfon yr ymateb sy'n dod i law atoch chi.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**